O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 674 (Cy. 80)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23 (Llanddulas) i Gyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mawrth 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mawrth 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23 (Llanddulas) i Gyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 6 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r darnau o Gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy) ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd 3.25 metr neu ragor o led, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 13, bydd y llain galed sydd gyfagos i brif gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar gael i'w defnyddio fel lôn i draffig.

**Atal Dros Dro**

**9.** Mae darpariaethau Rheoliad 13, paragraffau (1) a (2) o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**10.** Mae darpariaethau Rheoliad 13(1) a (2) o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) 1985**(4)** wedi eu hatal dros dro o ran y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 ar waith.

**11.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Llansanffraid Glan Conwy – Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011**(5)** wedi eu hatal dros dro o ran y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 ar waith.

**12.** Mae darpariaethau Rheoliad 3 o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) (1985) wedi eu hatal dros dro i'r graddau y bont yn cyfeirio at y llain galed sy'n cyffinio â'r darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 a chyfarwyddir traffig i ddefnyddio'r llain galed a bennir.

**Cymhwyso**

**13.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**14.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 28 Chwefror 2013

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 c.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1984/1719
**(4)** O.S. 1985/824
**(5)** O.S. 2011/2330 (Cy. 245)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 22 (Hen Golwyn) hyd at ganolbwynt Cyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 21 (Bae Colwyn).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 20 (Ffordd Conwy).

### ATODLEN 2
### Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darnau hynny o gerbytffyrdd tua'r gorllewin a'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2 gilometr o'r dwyrain i ganolbwynt Cyffordd 22 (Hen Golwyn) hyd at ganolbwynt Cyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy).

### ATODLEN 3
### Gwahardd dros dro gerbydau dros 3.25 o fetrau o led

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas) hyd at ganolbwynt Cyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy).

### ATODLEN 4
### Defnyddio'r Llain Galed ar gyfer Traffig Dros Dro

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas) hyd at ganolbwynt Cyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy).